

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Bethan Roberts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom nos Iau 10 Mawrth 2022 am 19.00

### 1. PRESENNOL:

#### Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Megan Tomos

#### Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng. Jên Morris.**

**2. Ymddiheuriadau** - gan y Cyng. Wyn Bowen Harris, Alun Thomas a Lowri Evans.

### 3. Symud ffin Llwyn Bedw a Cae Rhoxydd – Cyng. Dafydd Meurig

Trafodwyd y mater yma ar ddechrau'r cyfarfod, gyda rhai o drigolion Llwyn Bedw yn bresennol i wrando ar y drafodaeth. Penderfynwyd bydd Cyng. Dafydd Meurig yn mynd o ddrws i ddrws i siarad gyda trigolion Llwyn Bedw, a fydd y Clerc yn danfon llythyr at y trigolion i ofyn eu barn am newid y ffin.

### 4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022.

### 5. Materion yn codi o'r cofnodion

**Twll yn y ffordd ger y Wern** – Y Clerc wedi anfon fideo ymlaen at Gyngor Gwynedd.

Dim diweddariad ar y mater. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi hefyd.

**Cysylltiad Fibreoptig** – Nodwyd fod Openreach wedi bod yn gweithio ac yn gosod polyn dros ffordd i Wern Bach, ond nid oedd perchennog y tir nag y trigolion lleol yn ymwybodol o'r gwaith hwn. Y Clerc i holi Openreach am eu cynlluniau, a holi pam nad ydynt wedi ymgynghori gyda'r trigolion lleol.

**Llyn Bryn** – Y Clerc wedi cysylltu gyda Stad Penrhyn am y 3 bwlch, Elis Jones wedi cadarnhau fod y gwaith ar y rhestr, ond ar hyn o bryd mae llawer o waith i neud ar dai a waliau coedtir ar ymylon dir tenantiaid sydd ar ben y rhestr. Nodwyd fod mater o ddiolgelwch yma, a fod angen gwneud y gwaith hwn ar frys.

**Sedd Wag** – Nodwyd ni fydd angen llenwi'r sedd hyd nes yr etholiad ym mis Mai.

**Arwyddion Maes y Groes** – Cadarnhawyd bydd yr arwyddion hyn yn gael ei archebu gan yr adran Briffyrdd ym mis Ebrill.

**Terfyn cyflymder Talybont i Maes y Groes**– Nodwyd fod yr adran Priffyrdd wedi trosglwyddo'r cais at yr adran traffig, nid ydym wedi derbyn unrhyw ddiweddariad hyd yma.

**Datblygiadau Bronydd Isaf** – Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad, y Clerc i holi eto.

**Gardd Cymunedol** – Cadarnhawyd y bydd y gwaith yn barod i gychwyn yn fuan iawn, y Clerc i ail hysbysu yr wybodaeth ar tudalen facebook 'Trigolion Talybont'. Y Clerc i hysbysu Ysgol Llandygai, gan obeithio bydd y plant gyda diddordeb cymeryd rhan.

**Cae Pel-droed** – Nodwyd fod llawer o amser wedi mynd heibio, a fod angen gweithredu ar y mater hwn ar frys, Felly penderfynwyd y bydden yn defnyddio cynllun y Cyng. Evan Jones i ymgynghori gyda'r trigolion lleol, ac fydden yn trefnu noson galw i mewn yn y Ffestri yn Nhalybont ar nos Lun, 4ydd o Ebrill 2022 rhwng 5 a 7yh. Y Clerc i rhoid cymorth drwy lunio daflen ac i argraffu ayyb, penderfynwyd bydd y Cyng. Evan Jones a'r Cyng. Geraint Hughes yn danfon y taflenni i'r cartrefi yn Nhalybont.

**Ffordd Llwyn Bleddyn – cais am linellau Melyn** – Nodwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i'r mater ac am ymgynghori gyda'r trigolion lleol.

**Pant Bowls** – darn o'r ffordd yn dal llawer iawn o ddŵr ar adegau o law trwm. Cyng. Dafydd Meurig wedi holi, ond heb dderbyn ymateb.

**Ffordd lawr at Traeth Lafan** – Adroddwyd fod y ffordd yma mewn cyflwr gwarthus – Y Clerc wedi hysbysu'r Adran Priffyrdd, nodwyd y byddent yn gwneud y gwaith angenrheidiol i ddechrau, ac rhoid gweddill ar y rhaglen waith.

**Ffordd ger Tyddyn Cottages, Talybont** - Nodwyd fod llawer o ddŵr yn llifo yma pan mae glaw trwm. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Bryn Derwas** – Nodwyd fod y ffordd ger Bryn Derwas mewn cyflwr gwael ac yn beryg iawn, y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Clerc i holi hefyd am gael bin halen ar dop yr allt. Angen holi am ddiweddariad.

**Lôn Bryn** – Nodwyd fod y ffordd yma mewn cyflwr gwael, nodwyd y byddent yn gwneud y gwaith angenrheidiol i ddechrau, ac rhoid y gweddill ar y rhaglen waith.

**Llwybr Capel Gilfach fyny at Bronydd** – Nododd y Cyng. Alun Thomas fod y coed a'r gwrychoedd wedi gor-dyfu ar y llwybr hwn. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau.

**Prosiect Partneriaeth y Carneddau** – y Cynghorwyr yn siomedig nad oes llawer o waith ymarferol i'w weld yn cael ei gwblhau ar y Mynydd – angen gwahodd y Swyddogion i gyfarfod cyn gynted a bo modd. Nodwyd fod Geraint Williams i ffwrdd o'i waith am gyfnod, y Clerc i gwahodd Geraint i gyfarfod pryd fydd yn dychwelyd i'r gwaith.

**Gwaith adnewyddu ar y corlannau** - Y Clerc i gysylltu gyda Parc Cenedlaethol Eryri i holi am unrhyw grantiau sydd ar gael ar gyfer y math yma o waith. Dim byd ar gael ar hyn o bryd. Y Clerc dal i holi o gwmpas.

**Is-bwyllgor Cyllid** – angen trefnu cyfarfod cyn gynted a phosib.

**Bont Llan** – twll yn y ffordd, Clerc i holi am ddiweddariad.

**Lôn Bronydd** – tyllau mawr yn y ffordd, yn enwedig rhwng Plas Uchaf a Bronydd – sydd yn berygl i feicwyr. Nodwyd Cyngor Gwynedd y byddent yn gwneud y gwaith angenrheidiol i ddechrau, ac rhoid y gweddill ar y rhaglen waith.

**Llwybrau cyhoeddus** – sy'n rhedeg drwy tir ffermwyr – angen caniatad y tiffeddiannwr i fod ar feics. Pobl yn cymryd bod na hawl ac yn gyrru heibio bobl sy'n cerdded a gyda pramiau. Angen arwyddion gan Cyngor Gwynedd fel bod hyn yn glir i'r cyhoedd. Y Clerc wedi rhoid rhif ffôn Cyng. Jên Morris i'r Swyddog Llwybrau.

**Atal datblygiad Cae Rhosydd** - Penderfynwyd yn ein cyfarfod diwethaf i alw ar ein cynghorwyr lleol i atal datblygiad Cae Rhosydd ac ail-ymgyngori oni bai bod y cais gwreiddiol o 15 dai cymdeithasol a 15 o dai ar werth yn sefyll. Y Clerc wedi ysgrifennu at y cynghorwyr lleol, y Cyng. Dafydd Meurig yn bresennol yn y cyfarfod. Nodwyd y Cynghorydd ei fod yn gefnogol o'r cais am 30 o dai fforddiadwy oherwydd fod yno galw mawr amdanynt. Awgrymodd fod y Cyngor yn cysylltu gyda'r datblygwr 'Adra', y Cyngor wedi gwneud hyn eisoes, ond nid oeddynt yn fodlon cyfarfod.

## 6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Llais Ogwan	Hysbyseb Ceisiadau am Nawdd Ariannol	£20.70
Wicksteed	Trwsio siglen 'hurricane'	£675.60

## 7. Rhoddion

Penderfynwyd gohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf.

## 8. Y Mynydd

Nid oedd yn bosib trefnu'r Is-bwyllgor Mynydd oherwydd argaeledd yr aelodau. Y Clerc i bennu dyddiad cyn gynted a bu'r modd.

Llythyrau Pro rata - angen gwneud y ffigyrau 'pro rata' ar gyfer dyryniadau ychwanegol. Derbyniwyd llythyr gan glerc Cymdeithas Porwyr Aber a Llanfairfechan ynglŷn a defaid o fynydd Llanllechid yn crwydro drosodd i fynydd Aber yn ystod y gaeaf. Nifer helaeth ar brydiau, oddeutu cant. Nodwyd y cyngor yn ymwybodol or broblem ers rhai blynnyddoedd ac yn gweithio ar datrysiad. Y Clerc i ymateb.

## 9. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd** – Holiadur Costau Byw 2022 – pawb i gwblhau'r holiadur drwy'r ddolen.

**Cyflwynwyd** – Llywodraeth Cymru – Holiadur OECD Questionnaire – Help i lunio dyfodol cymru – gwahoddiad i gwblhau'r holiadur.

**Cyflwynwyd** – Nicola Austin – Bwlch Fynwent Llan – Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol pwy sydd yn gyfrifol am y bwlch, ond yn awgrymu ei bod yn cysylltu gyda'r Eglwys yng Nghymru.

## 10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Clwb Hanes Rachub – Nodwyd y Cyng. Megan Tomos fod y Clwb Hanes wedi trefnu cyfarfod gyda archeolegwyr sydd yn gweithio ar safle Cae Rhosydd, a cafwyd sesiwn hynod o ddiddorol a pawb wedi mwynhau. Y Clerc i lunio llythyr i ddiolch i'r Clwb am drefnu'r digwyddiad.

## 11. Penderfyniadau Cynllunio:

**C20/0504/21/LL**

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0078/21/CC**

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**

Ogwen Bank, Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/28E**

Bronydd Uchaf, Llanllechid

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/1224/21/LL**

Fferm Tyddyn Isaf, Tal y Bont, Bangor

Estyniad i'r sied amaethyddol presennol

**Penderfyniad:** Caniatawyd heb amodau.

**C21/0722/21/YA**

Pant Hwfa, Llanllechid, Bangor

Cais hysbysiad o flaen llaw ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar gyfer bwyd anifeiliaid ac peiriannau amaethyddol.

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C22/0023/21/DT**

Pencae, 5 Llwyn Bedw, Rachub

Cais ar gyfer codi estyniad llawr cyntaf i dalcen yr eiddo

**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau.

**Ceisiadau Cynllunio:****C22/0206/21/CR**

Pont Tal Y Bont, Bangor,

Gwaith dros dro i osod dau beipen lawr ochr y bont (hyd at Rhagfyr 2022)

**Penderfyniad:** Cynghorwyr i ddanfôn sylwadau i'r Clerc drwy ebost.

**12. Materion Brys**

**Stad Penrhyn** – Penderfynwyd gwahodd Elis Jones o Stad y Penrhyn i gyfarfod yn y dyfodol agos, y Clerc i gysylltu.

**Gor-dyfiant Lon Goed** – Nodwyd y Cyng. Kevin Williams fod llawer o goed wedi gor-dyfu rhwng y fynwent ac afon Llan, a fod y coed yn crafu ar hyd cerbydau uchel fel tractorau a faniau. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.